## Gweddi: Y Groglith

**Arweinydd:**
Deuwn ger dy fron, O Dduw, yn ein hangen mawr am obaith a goleuni, cysur a deall, yn ein cyfarfyddiad ar y diwrnod arbennig hwn.

**Pawb:**
Arglwydd Dad, Cynorthwya ni.

**Arweinydd:**
Maddau i bawb, O Dduw graslon, i bawb sy'n bradychu cyfaill, yn canmol gweithredwyr anwiredd, ac yn cynorthwyo'r awdurdodau i fod yn gibddall a chreulon.

**Pawb:**
Maddau iddynt, am na wyddant beth maen nhw'n ei wneud.

**Arweinydd:**
Am wadu deirgwaith, gerbron morwyn, un a fu'n garedig o ffyddlon.

**Pawb:**
Dad, maddau iddynt, am na wyddant beth maen nhw'n ei wneud.

**Arweinydd:**
Am ddal i gredu mai'r unig ffordd i dawelu llais y cyfiawn yw ei ladd yn greulon ar bren garw'r Groes.

**Pawb:**
Dad, maddau iddynt, am na wyddant beth maen nhw'n ei wneud.

**Arweinydd:**
Am droi cefn ar y da a chofleidio ffordd y trais a'r crechwenu a'r gofidiau.

**Pawb:**
Dad, maddau iddynt, am na wyddant beth maen nhw'n ei wneud.

**Arweinydd:**
Cyrhaeddaist ddiben dy anturiaeth ddrud
Drwy boenau mawr;
A gwelais di dan faich gofidiau'r byd
Yn gwyro i lawr,
Ac yn dy ochain dwys a'th ddrylliog lef
Yn galw'r afradloniaid tua thref.

**Pawb:**
Dad, maddau iddynt, am na wyddant beth maen nhw'n ei wneud.

**Arweinydd:**
Am fradychu Mab Duw, a gwadu Brenin y Gogoniant, a gwrthod Iesu, Gorchfygwr Angau.

**Pawb:**
Dad, maddau iddynt, am na wyddant beth maen nhw'n ei wneud. Amen.